

**Cymwysterau Cymru
ymateb i Graffu'r
Pwyllgor CYPE ar
Covid-19 a'i effaith ar
blant a phobl ifanc**





Ymateb Cymwysterau Cymru i Archwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc

Cynnwys

| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Cefndir | 2 |
| 3. Ymateb i ganslo arholiadau'r haf 2020 | 3 |
| 4. Cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau - Trefniadau ar gyfer haf 2020 | 5 |
| 5. Cymwysterau Galwedigaethol -Trefniadau ar gyfer haf 2020 | 8 |
| 6. Haf 2021 | 9 |
| 7. Y Camau Nesaf | 9 |

1. Cyflwyniad

- 1.1 Fel rheoleiddiwr annibynnol Cymwysterau yng Nghymru, rydym yn monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod, yn adolygu cymwysterau cyfredol, yn goruchwyllo'r broses o lunio cymwysterau newydd, ac yn cefnogi'r system gymwysterau. Mae ein dull rheoleiddio'n eangfrydig, felly rydym yn ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio i gryfhau ein gallu i hybu hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.
- 1.2 Mae amseroedd anghyffredin yn galw am fesurau anghyffredin. Bydd Haf 2020 yn brawf o hynny mewn sawl maes. O ystyried y penderfyniad i gau ysgolion a chanslo arholiadau o ganlyniad i bandemig y coronafeirws, mae sefydlu trefniadau newydd ar gyfer yr haf hwn yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn graddau ac yn gallu symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau, boed hynny'n astudiaeth bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- 1.3 Ar gyfer pob dysgwr sy'n astudio TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau (THS), gwnaethom gynnig cyflwyno set o nodau i ategu'r broses o ddyfarnu graddau yng nghyfes arholiadau haf 2020, ac i weithredu proses apelio benodol ar gyfer yr haf hwn.

2. Cefndir

- 2.1 Ar 18 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg¹ y byddai ysgolion ledled Cymru yn cau ar gyfer darpariaeth addysg statudol ar 20 Mawrth 2020 fan bellaf.
- 2.2 Aethom ni i gyfarfodydd gyda'r Gweinidog a CBAC i ystyried opsiynau ar gyfer trefniadau ar gyfer arholiadau haf 2020. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y Gweinidog² na fyddai cyfres arholiadau haf 2020 yn mynd yn ei blaen ac y byddai dysgwyr oedd i fod i sefyll eu harholiadau yn yr haf yn cael gradd deg i gydnabod eu gwaith.
- 2.3 Ers y cyhoeddiad hwn, rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC a'n cyd-reoleiddwyr cymwysterau i sicrhau y bydd dysgwyr sy'n sefyll arholiadau yn derbyn set o raddau teg i gydnabod eu gwaith a chefnogi dilyniant i'r cam nesaf yn eu bywydau.

¹ Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru* <https://cyfryngau.gwasanaeth.llyw.cymru/newyddion/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru>

² Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad ysgrifenedig ar arholiadau haf 2020* <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadau-haf>

3. Ymateb i ganslo arholiadau'r haf 2020

- 3.1 Mae pandemig Covid-19 wedi newid bywydau pawb ac mae'n gyfnod cythryblus i ddysgwyr. Yn amlwg, o dan amgylchiadau arferol, ein dewis ni fyddai i arholiadau fynd yn eu blaen fel y bwriadwy, fel y gellid osgoi pryderon dysgwyr a chanolfannau. Rydym yn deall pa mor anodd yw'r sefyllfa. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r rheini y mae'r sefyllfa bresennol yn effeithio arnynt, a'n blaenoriaeth o hyd yw sicrhau tegwch i ddysgwyr.
- 3.2 Drwy gydol y cyfnod hwn canolbwyntiwyd ar sefydlu dull gweithredu ar gyfer cyfres arholiadau'r haf, sydd mor deg â phosibl i ddysgwyr, ac sydd er eu lles pennaf o ran eu cynnydd i waith, addysg bellach neu hyfforddiant. Rydym wedi gwneud ymdrech ar y cyd i gyfathrebu â dysgwyr a rhanddeiliaid eraill drwy wahanol sianeli yn rheolaidd, ac i roi'r sicrwydd y gallant fod yn hyderus yn y broses a gaiff ei defnyddio i ddyfarnu graddau ar gyfer cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol eleni. Darperir gwybodaeth am sut rydym wedi cyfathrebu â'r dysgwyr drwy gydol yr adroddiad hwn.
- 3.3 Gan gydnabod ei fod yn gyfnod anodd iawn i bob dysgwr gan gynnwys plant a phobl ifanc, gweithwyr addysg proffesiynol a rhieni, crëwyd adran bwrpasol ar ein gwefan i ddarparu gwybodaeth gyfredol am unrhyw ddatblygiadau'n ymwneud â Covid-19. Ers penderfyniad y Gweinidog i ganslo arholiadau ar 18 Mawrth 2020 rydym wedi cyhoeddi datganiadau rheolaidd³ ar ein penderfyniadau.
- 3.4 I gefnogi'r datganiadau hyn a rhoi atebion i gwestiynau a godwyd drwy e-bost, dros y ffôn ac ar y cyfryngau cymdeithasol, mae adran sy'n cynnwys cyfres o Gwestiynau Cyffredin⁴ ar gael yn yr adran Covid-19. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddarau i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf. Mewn ymateb i nifer yr ymholiadau, datblygwyd feithluniau i esbonio'r ymagwedd mwy cymhleth at safon UG⁵ a blwyddyn 10⁶.
- 3.5 Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at gynnydd mewn traffig i'n gwefan ac mewn gweithgarwch gan ddysgwyr a rhanddeiliaid ehangach sy'n ymgysylltu drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.
- 3.6 Roedd cyfanswm nifer yr argraffiadau trwy Twitter, Facebook a LinkedIn o'r amser y caewyd ysgolion ym mis Mawrth i ddiwedd mis mai - hynny yw, cyfanswm y nifer o gyfleoedd i ddarllen ein cynnwys – ychydig dros 1.1 miliwn, sef cynnydd o 394%. Roedd

³ Cymwysterau Cymru (2020) *Datganiadau Cymwysterau Cymru*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/>

⁴ Cymwysterau Cymru (2020) *Cwestiynau Cyffredin* <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/cwestiynau-cyffredin-ynglyn-ar-coronafeirws/>

⁵ Cymwysterau Cymru (2020) *Dull Gweithredu o ran Safon UG yng Nghymru haf 2020*

<https://www.qualificationswales.org/media/5808/dull-gweithredu-o-ran-safon-ug-yng-nghymru-haf-2020.pdf>

⁶ Cymwysterau Cymru (2020) *Dull Gweithredu o ran TGau yng Nghymru haf 2020*

<https://qualificationswales.org/media/5745/dull-gweithredu-o-ran-tgau-yng-nghymru-haf-2020.pdf>

cyfanswm nifer y rhyngweithiadau â'n cynnwys yn cynnwys hoffi, rhannu, sylwadau neu ail-drydar, yn 75,000, sef cynnydd o 1,104%. Roedd Twitter yn cyfrif am y mwyafrif gyda bron i 64,000 tra bod Facebook yn ychwanegu 10,000. Cliciodd bron i 22,000 o bobl o'n sianeli cyfryngau cymdeithasol i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

3.7 Mae'r Tîm Cysylltiadau Allanol wedi ymateb i dros 250 o negeseuon e-bost a galwadau ffôn uniongyrchol gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, dysgwyr, staff canolfannau, uwch arweinwyr a thiworiaid preifat ers i'r canolfannau gau ym mis Mawrth.

3.8 Yn ogystal â'r diweddariadau ffurfiol, rydym wedi bod yn rhannu blogiau am y penderfyniadau a wnaed yn ystod pandemig Covid-19. Nod y rhain yw adlewyrchu pryderon a godwyd ac egluro ein ffordd o feddwl, ac fe'u rhestrir isod:

- *Amseroedd anodd i bob un ohonom (23 Mawrth)*
- *Sawl ateb i gwestiynau cymhleth (30 Mawrth)*
- *Gwneud yr hyn sy'n iawn, nid yr hyn sy'n hawdd (6 Ebrill)*
- *Graddau, marciau ac unedau UG – pam ei fod yn gymhleth (23 Ebrill)*
- *Cyfrifo, addasu neu oedi – y ffordd ymlaen ar gyfer cymwysterau galwedigaethol (24 Ebrill)*
- *Rhannu ein rhesymeg fesul cam (1 Mai)*
- *Edrych ymlaen ar gyfer y rhai sydd hanner ffordd drwy eu cyrsiau (6 Mai)*
- *Cyfnod anarferol yn galw am benderfyniadau sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth - Safbwynt Rhiant (14 Mai)*
- *Y dull tecaf ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10 (15 Mai)*
- *Beth nawr bod tymor arholiadau'r haf wedi'i ganslo? (26 Mai)*
- *Blwyddyn 10, Blwyddyn 12 - rydym yn eich clywed (9 Mehefin)*
- *Effaith COVID-19 ar dderbyniadau prifysgolion (8 Mehefin)*
- *Cynllunio'r llwybr i TGAU, UG a Safon Uwch yr haf nesaf (25 Mehefin)*
- *Dod o hyd i atebion i'r her fawr hon (29 Mehefin)*
- *Nid yw arholiadau sydd wedi'u canslo yn golygu nad ydym wedi gweithio'n galed ar gyfer ein graddau (3 Gorffennaf)*

3.9 Er mwyn cefnogi dysgwyr a rhanddeiliaid ehangach ymhellach yn ystod yr amser anodd hwn, rydym wedi creu tudalen Cymorth a Chyngor⁷ ar ein gwefan sy'n darparu dolenni i adnoddau i helpu gyda'r ansicrwydd y mae Covid-19 wedi ei achosi. Mae'r adnoddau'n amrywio o ddysgu o bell i gyngor a chanllawiau ar lesiant. Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau eraill i rannu'r wybodaeth fwyaf defnyddiol. Mae sefydliadau ar draws y sector addysg wedi dod ynghyd i hyrwyddo #CadwnDdiogelDalAtiiDdysgu, rhaglen ar-lein sy'n benodol ar gyfer dysgwyr a theuluoedd.

⁷ Cymwysterau Cymru (2020) *Tudalen we Cyngor a chymorth Covid-19*
<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/cymorth-a-chyngor/>

- 3.10 Er mwyn cefnogi dilyniant dysgwyr rydym wedi gweithio'n agos gydag addysg bellach ac addysg uwch, gan rannu gwybodaeth gyda neges glir y bydd cymwysterau eleni yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gadarn fel unrhyw flwyddyn arall. Rydym yn parhau i weithio gydag addysg bellach ac addysg uwch – gan greu [blogiau](#) a ffilmiau a ffeithluniau i gefnogi'r neges i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill.
- 3.11 Rydym yn gweithio gydag UCAS a byddwn yn ymuno â'u fforwm ar-lein i ddysgwyr ar 15 Gorffennaf ar 'Pam mae Cymwysterau'n Cyfrif?'. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth drwy gyfrwng ffilm fer gydag UCAS er mwyn i ddysgwyr ddeall y broses/prosesau apelio yma yng Nghymru.
- 3.12 Rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid.

4. Cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau - Trefniadau ar gyfer haf 2020

- 4.1 Ar 3 Ebrill 2020, gwnaethom gyhoeddi Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno data asesu canolfannau. Roedd hwn yn nodi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ysgolion a cholegau gasglu a chyflwyno data i CBAC er mwyn caniatáu cyhoeddi canlyniadau i garfan dysgwyr eleni. Gwnaethom ymgysylltu ag ystod o grwpiau cynrychioliadol, yn ogystal â CBAC, i'n helpu i ddatblygu'r canllaw hwn yn gyflym ac yn effeithiol. Yn y pecyn hwn o wybodaeth roedd neges i ddysgwyr⁸. Er budd tegwch, bydd y data asesu canolfannau a gyflwynir yn cael ei safoni gan CBAC gan ddefnyddio model ystadegol sy'n cael ei ddatblygu ganddynt ar hyn o bryd ac a gaiff ei gymeradwyo gennym ni, a bydd yn sicrhau bod safon gyffredin yn cael ei chymhwyso i raddio dysgwyr.
- 4.2 Ar 6 Ebrill 2020, rhoddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd⁹ inni o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch canslo arholiadau a phenderfynu ar raddau yn dilyn hynny. Mae'r Cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau bod dull teg a chadarn o roi graddau i garfan dysgwyr haf 2020 yn cael ei fabwysiadu.
- 4.3 Gwnaethom ymgynghori ar gynigion yn ymwneud ag agweddau allweddol ar y trefniadau ar gyfer haf 2020 am gyfnod o bythefnos rhwng dydd Mawrth 28 Ebrill a 13 Mai 2020. Gwnaethom gydnabod bod yr amserlen hon yn dynn oherwydd yr amgylchiadau rhyfeddol oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn a'r ceisiadau dealladwy am eglurder cynnar, i ddysgwyr, canolfannau a'r rhai a fydd yn defnyddio canlyniadau cymwysterau 2020. Diolchwn i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad hwn.

⁸ Cymwysterau Cymru (2020) *Neges i ddysgwyr*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/graddau-neges-i-ddysgwyr/>

⁹ <https://llyw.cymru/canslo-arholiadau-tgau-ug-safon-uwch-llythyr>

4.4 Yn yr ymgynghoriad hwn¹⁰, gofynnwyd i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn am ddwy agwedd allweddol ar drefniadau haf 2020.

- Yn gyntaf, y nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau i ddysgwyr yr haf hwn, ac
- Yn ail, y broses apelio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.

Yn amlwg, nid oes unrhyw atebion perffaith ac roeddem yn ymwybodol y gallai'r cynigion hyn fod yn llai dymunol na'r trefniadau arferol. Roeddem yn parhau'n agored i ystyried dewisiadau amgen ac yn annog y cyfraniadau hynny.

4.5 Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori lawn, gwnaethom ddarparu mynediad at fersiwn i Bobl Ifanc, a gynhyrchwyd yn benodol i annog pobl ifanc i ymateb. Cawsom 4,057 o ymatebion i gyd. Roedd yn galonogol gweld, o gyfanswm yr ymatebion, 2,079, bod mwy na hanner (51.3%) o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cyfeirio atynt eu hunain fel dysgwyr. (Mae'r cyfanswm dod i fwy na 100% oherwydd bod rhai ymatebwyr wedi nodi eu hunain fel mwy nag un peth e.e. athro a rhiant.)

| Dysgwr | Gweithiwr addysg proffesiynol | Rhiant/gofalwr | Pob un arall | Swm | Cyfanswm yr ymatebwyr | Gwahaniaeth |
|--------|-------------------------------|----------------|--------------|--------|-----------------------|-------------|
| 2,079 | 803 | 1,128 | 117 | 4,127 | 4,049 | 78 |
| 51.3% | 19.8% | 27.9% | 2.9% | 101.9% | 100.0% | 1.9% |

4.6 Fel rhan o'r ddogfen ymgynghori, gwnaethom lunio Asesiad Effaith Integredig yn gofyn am farn ar effaith ein cynigion, gan gynnwys yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, ac ar y Gymraeg.

4.7 Rydym wedi ymgysylltu â grwpiau penodol sy'n cefnogi pobl ifanc a'r rheini mewn grwpiau lleiafrifol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Senedd leuenticid a dynnodd sylw at bryderon ynghylch y grwpiau hyn o ddysgwyr. Yn ogystal, gwahoddwyd nifer o sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ifanc agored i niwed a difreintiedig i fynychu gweminar ymgynghori er mwyn rhoi cyfle iddynt godi unrhyw bryderon penodol. Roedd hyn yn cynnwys grwpiau rhieni a'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol.

¹⁰<https://qualificationswales.org/cymraeg/cymerwch-ran/ymgyngoriadau-ac-arolygon/ymgyngoriadau-ac-arolygon-sydd-wedi-dod-i-ben/ymgyngoriad-trefniadau-ar-gyfer-cyfres-arholiadau-haf-2020/>

- 4.8 Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â darparwyr addysg uwch ac addysg bellach ar ein dull o feddwl a'n penderfyniadau er mwyn deall eu heriau a gofyn iddynt ystyried y camau y gallai darparwyr eu cymryd wrth wneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau.
- 4.9 Cyhoeddwyd canfyddiadau a phenderfyniadau ein hadroddiad ymgynghori ar ein gwefan ynghyd â Chrynodeb Gweithredol¹¹ sy'n amlygu'r prif benderfyniadau mewn perthynas â dwy agwedd allweddol yr ymgynghoriad, fel y cyfeiriwyd atynt yn gynharach ym mharagraff 4.1.
- 4.10 Mewn perthynas â chynnig 1, dyma'r nodau y cytunwyd arnynt a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau i ddysgwyr yr haf hwn:
- Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfan lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.
 - Nod 2: Bydd canlyniadau cenedlaethol yn gymharol debyg i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn lleihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros gyfnod o amser a chynnal hyder y cyhoedd.
 - Nod 3: Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn rhoi dysgwyr o dan fantais nac anfantais systematig, gan gynnwys y rhai â nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.
 - Nod 4: Bydd y model safoni ystadegol yn defnyddio ystod o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau y byddai dysgwyr wedi bod yn debygol o'u cyflawni, pe baent wedi gallu cwblhau eu hasesiadau.
- 4.11 Mae penderfyniadau ar yr ail gynig ynghylch proses apelio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 hefyd yn cael eu hesbonio ac rydym wedi creu ffeithlun¹² yn nodi atebion i'r cwestiynau allweddol am y broses benodol hon. Os oes gan ddysgwyr neu eraill bryderon am ragfarn, gwahaniaethu neu unrhyw ffactor arall sy'n awgrymu na wnaeth canolfan ymddwyn gyda gofal neu uniondeb wrth benderfynu ar radd asesu a/neu wybodaeth am y drefn restrol, dylent godi'r pryderon hyn gyda'u canolfan. Disgwylw i honiadau o'r fath fod yn brin, ond mae hyn yn ddiogelwch pwysig i ddysgwyr a'u hyder cyffredinol yn nhrefniadau graddio eleni Bydd mwy o wybodaeth a manylion am broses apelio CBAC yn dilyn.
- 4.12 Mae'r Crynodeb Gweithredol a'r ffeithlun apeliadau wedi'u cynllunio i wneud y wybodaeth am benderfyniadau yn hawdd cael gafael arni ac yn ddealladwy i randdeiliaid nad ydynt am ddarllen yr adroddiadau canfyddiadau a phenderfyniadau llawn.

¹¹ Cymwysterau Cymru (2020) *Tudalen we penderfyniadau Covid-19 haf 2020*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/penderfyniadau-haf-2020/>

¹² Cymwysterau Cymru (2020) *Proses apelio haf 2020* <https://www.cymwysteraucymru.org/media/6214/proses-apelio-haf-2020.pdf>

4.13 Cynhaliwyd gweminar gyhoeddus i amlinellu canfyddiadau a phenderfyniadau'r ymgynghoriad ac roedd hwn yn agored i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, rhieni a gofalwyr. Mynychodd dros 300 o bobl y weminar, gan gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i dîm Cymwysterau Cymru. Mae crynodeb o'r cwestiynau a'r ymatebion hynny ar gael ar ein gwefan¹³ ynghyd â recordiad o'r weminar.

5. Cymwysterau Galwedigaethol -Trefniadau ar gyfer haf 2020

5.1 Lle cynigir cymwysterau galwedigaethol a thechnegol ledled y DU, mae'n bwysig ein bod yn cymryd ymagwedd gyffredin er mwyn sicrhau tegwch i bob dysgwr. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cyd-reoleiddwyr yn y DU i gyflawni'r nod hwn. Rydym yn nodi unrhyw ddatblygiadau Ofqual sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ein dysgwyr yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

5.2 Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Ofqual yr egwyddorion a fydd yn cael eu cymhwyso i wahanol grwpiau o gymwysterau galwedigaethol, yn gysylltiedig â'u pwrpas a sut y maent yn cael eu defnyddio gan ddysgwyr ar gyfer dilyniant. Er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn yng Nghymru, byddwn yn cymhwyso'r un egwyddorion¹⁴.

5.3 Mae'r trefniadau'n berthnasol i lawer o'r cymwysterau galwedigaethol a ddilyniir mewn ysgolion a cholegau a chan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru, gan gynnwys BTEC a chymwysterau dilyniant allweddol eraill. O ystyried cymhlethdod ac amrywiaeth y tirlun cymwysterau galwedigaethol, nid yw'n bosibl gweithredu un dull sy'n addas i bawb. Felly, mae dull rheoleiddio llai cyfarwyddol yn cael ei gynnig, a fydd yn seiliedig ar "fframwaith anghyffredin" hyblyg, sy'n seiliedig ar egwyddorion, sy'n dirprwyo i gyrff dyfarnu y broses o wneud penderfyniadau ynghylch sut y maent yn sicrhau canlyniadau i ddysgwyr. Bydd gan ganolfannau rôl allweddol o ran sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn gweithio'n effeithiol ac y gellir darparu canlyniadau, neu drefniadau asesu eraill, i ddysgwyr.

5.4 Fe wnaethom gymhwyso'r un egwyddorion wrth wneud penderfyniadau ar gymwysterau galwedigaethol a luniwyd yn benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Lle bynnag y bo modd, byddwn yn sicrhau bod dysgwyr sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau yr haf hwn yn cael canlyniad. Gwnaethom gyhoeddi ar 20 Ebrill y bydd holl ddysgwyr Sgiliau Hanfodol Cymru sydd i fod i gwblhau eu cymhwyster cyn diwedd

¹³ Cymwysterau Cymru (2020) *Penderfyniadau Haf 2020*

<https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/penderfyniadau-haf-2020/>

¹⁴ Cymwysterau Cymru (2020) *Dyfarnu cymwysterau galwedigaethol yr haf hwn*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/dyfarnu-cymwysterau-galwedigaethol-yr-haf-hwn---9-ebrill-2020//>

Gorffennaf yn cael canlyniad wedi'i gyfrifo¹⁵. Mae ein gwaith diweddar ar gytuno ar y ffordd ymlaen ar gyfer cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant¹⁶ yn enghraifft dda o le'r oedd yn rhaid i ni gydbwysu'r awydd i gyhoeddi canlyniadau'r haf hwn â'r angen i wneud yn siŵr bod dysgwyr wedi dangos y cymhwysedd proffesiynol sydd ei angen i weithio yn y sector pwysig hwn.

6. Haf 2021

6.1 Rydym yn edrych ymlaen ac yn cynllunio ar gyfer haf 2021. Er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid mor wybodus â phosibl ar ôl i ganfyddiadau'r ymgynghoriad gael eu rhyddhau, rydym wrthi'n datblygu fideos a ffeithluniau i esbonio sut y caiff graddau eu cyfrifo yn ystod yr haf, ac mae gennym flogiau ysgrifenedig am gynllunio ar gyfer haf 2021. Mae'r blog cyntaf yn trafod ein meddyliau cynnar¹⁷ ac mae'r un diweddaraf yn edrych ar y gwahanol opsiynau¹⁸ sydd ar gael.

6.2 Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â chanolfannau, gan ddarparu diweddariadau ar y gwaith o gynllunio haf 2021, ac rydym wedi anfon dau llythyr¹⁹ ²⁰at ganolfannau ym mis Gorffennaf. Rydym hefyd wedi cyhoeddi datganiad mewn ymateb i bapur safbwynt Ofqual ynghylch Cymwysterau ac Asesiadau Galwedigaethol a Thechnegol 2020-21²¹.

7. Y Camau Nesaf

7.1. Yn amlwg, o dan amgylchiadau arferol, ein dewis ni fyddai i arholiadau fynd yn eu blaen fel y bwriadwy, fel y gellid osgoi pryderon dysgwyr a chanolfannau. Rydym yn deall pa mor anodd yw'r sefyllfa. Rydym am wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r rheini y

¹⁵ Cymwysterau Cymru (2020) *Trefniadau wrth gefn sgiliau hanfodol Cymru*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/trefniadau-wrth-gefn-sgiliau-hanfodol-cymru---20-ebrill-2020/>

¹⁶ Cymwysterau Cymru (2020) *Cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/cymwysterau-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-a-gofal-plant-yng-nghymru/>

¹⁷ Cymwysterau Cymru (2020) *Edrych ymlaen ar gyfer y rhai sydd hanner ffordd drwy eu cyrsiau*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/blogiau/edrych-ymlaen-ar-gyfer-y-rhai-sydd-hanner-ffordd-drwy-eu-cyrsiau/>

¹⁸ Cymwysterau Cymru (2020) *Cynllunio llwybr i TGAU, UG a Safon Uwch yr haf nesaf*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/blogiau/cynllunio-llwybr-i-tgau-ug-a-safon-uwch-yr-haf-nesaf/>

¹⁹ Llythyr at ganolfannau – 3 Gorffennaf 2020

<https://www.qualificationswales.org/media/6243/3-july-2020-letter-to-schools-colleges-nov-series-s21-cym.pdf>

²⁰ Llythyr at ganolfannau – 15 Gorffennaf 2020

<https://www.qualificationswales.org/media/6268/15-july-letter-to-schools-colleges-cy.pdf>

²¹ Cymwysterau Cymru (2020) *Datganiad Cymwysterau Cymru ar bapur safbwynt Ofqual*

<https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-ynghylch-papur-safbwynt-ofqual-mewn-perthynas-a-chymwysterau-galwedigaethol-a-thechnegol-ac-asesiadau-2020-21/>

mae'r sefyllfa bresennol yn effeithio arnynt, a'n blaenoriaeth o hyd yw sicrhau tegwch i ddysgwyr a chynnal safonau priodol.

- 7.2. Fel rheoleiddiwr cymwysterau yng Nghymru, byddwn yn monitro'r broses o weithredu'r 'trefniadau eithriadol' dros yr haf i ddysgwyr yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gyfathrebu â rhanddeiliaid yn rheolaidd ac yn rhagweithiol. Byddwn yn parhau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor PPIA ac yn darparu sesiynau briffio yn y dyfodol.
- 7.3. Rydym yn bwriadu darparu dadansoddiad cynhwysfawr o ganlyniadau TGAU, UG a Safon Uwch yr haf eleni ar y diwrnodau canlyniadau perthnasol (13 Awst ar gyfer UG a Safon Uwch a 20 Awst ar gyfer TGAU). Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r wybodaeth gradd a ddarperir gan athrawon (Graddau Asesu Canolfannau), a fydd yn dangos lefel y newid sy'n ofynnol gan y model safoni ystadegol er mwyn cynnal canlyniadau 'cymharol debyg' – elfen allweddol wrth gynnal hyder y cyhoedd yng nghanlyniadau'r flwyddyn hon.

A handwritten signature in black ink that reads 'David Jones'.

David Jones
Cadeirydd, Cymwysterau Cymru

A handwritten signature in blue ink that reads 'Philip Blaker'.

Philip Blaker
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru